Dadansoddi ar gyfer Polisi

YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH

GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH

Analysis for Policy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

RHIF YMCHWIL CYMDEITHASOL: 05/2023
DYDDIAD CYHOEDDI: 19/01/2023

# Datblygu ecosystem data a gwybodaeth newydd sy'n cefnogi'r system ysgolion ddiwygiedig yng Nghymru – canfyddiadau astudiaeth ymchwil

**Crynodeb gweithredol**

## 1. Amcanion ymchwil

1.1 Mae'r system ysgolion yng Nghymru yn cael ei diwygio'n sylweddol. Mae *Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein Cenedl* (2017) yn gosod gweledigaeth feiddgar ar gyfer trawsnewid y cwricwlwm a gwella sgiliau a gwybodaeth dysgwyr. Mae'r Cwricwlwm i Gymru (CiG), sydd yn gonglfaen y diwygiadau, bellach wedi cael ei gyflwyno, ac fe ddaw'n statudol i holl ddysgwyr hyd at ac yn cynnwys Blwyddyn 8 o fis Medi 2023.

1.2 Caiff y CiG ei danategu gan bedwar amcan galluogi sydd yn ganolog ar gyfer gwireddu'r weledigaeth newydd ar gyfer y system ysgol a'i ddysgwyr - gan gynnwys y bedwaredd amcan sydd wedi canolbwyntio ar greu 'asesiad, gwerthuso, a threfniadau atebolrwydd gwydn.' Cafodd yr astudiaeth hon ei gomisiynu i hyrwyddo'r bedwaredd amcan yma drwy ddiffinio system eco data a gwybodaeth newydd i'r system ysgolion yng Nghymru all gefnogi tri swyddogaeth craidd: hunanwerthuso a gwelliant, atebolrwydd, a thryloywder ar gyfer dinasyddion mwy eang.[1]

1.3 Mae'r system eco data a gwybodaeth hon yn llydan ac eang ei hystod, gan gwmpasu'r ystod lawn o wybodaeth a gaiff ei gasglu, ei brosesu a'i ddefnyddio gan rhanddeiliaid er mwyn cyflawni'r tri swyddogaeth craidd. Roedd gan yr astudiaeth yma felly sawl nod penodol. Y peth cyntaf oedd i ddeall swyddogaethau a chyfrifoldebau amrywiol rhanddeiliaid ar draws y system wrth gyflawni swyddogaethau craidd, mapio'r data a'r wybodaeth oedd ei angen arnyn nhw i wneud hwn yn

[1] Mae'n rhan o raglen ehangach o dystiolaeth ac ymchwil. Er enghraifft, mae'r *Cyfarwyddyd gwella ysgol: fframwaith ar gyfer gwerthuso, gwelliant ac atebolrwydd* ac adnoddau sy'n mynd gyda hwn (Mehefin 2022) yn amlinellu disgwyliadau Llywodraeth Cymru ar gyfer creu system sydd yn canolbwyntio ar welliant. Cafodd astudiaeth gwmpasu ar wahân ar gyfer gwerthuso'r diwygiadau i'r cwricwlwm ac asesu yng Nghymru, ei gomisiynu gan Lywodraeth Cymru hefyd.

effeithiol yn fanwl a dod ag eglurder a ffurf yn gyffredinol i'r hyn a olygir gan y data a system eco gwybodaeth.

1.4 Cyn cyflwyno'r CiG, canolbwyntiwyd ar gyflawniad dysgwr yn anghyfrannol (h.y. Cymwysterau Cyfnod Allweddol 4) yn y system ysgol, a greodd ganlyniadau anfwriadol gan gynnwys meithrin diwylliant lle cafodd y defnydd o ddanta meintiol ei wyrio tuag at graffu ac atebolrwydd. Mae'r cyfarwyddyd gwella ysgol newydd yn amlinellu gweledigaeth amgen lle dylai data a gwybodaeth gael ei ddefnyddio yn bennaf ar gyfer hunan-werthuso a gwelliant. Yr ail nod felly oedd i ddeall y mathau o ddata a gwybodaeth a ffyrdd y dylid ei ddefnyddio all barhau i ddylanwadu'n gadarnhaol ar yr agweddau ac ar ddiwylliant partneriaid a galluogi'r weledigaeth hon.

1.5 Yn olaf, mae'r CiG yn fwy hyblyg a mwy chyfanol nac erioed o'r blaen, ac mae'n blaenoriaethu – yn ei bedwar pwrpas – agweddau o ddysgu fel lles a chreadigrwydd yn gyfartal wrth ochr cyflawniad. Nod terfynol yr astudiaeth yma felly oedd i wneud argymhellion ar gyfer newidiadau i'r ffordd mae data a gwybodaeth yn cael ei ddefnyddio yn y system ysgol fel bod y system eco yn adlewyrchu ethos a chynnwys y CiG ac yn gallu cefnogi ei weithrediad llwyddiannus a pharhaus.

1.6 **Cwmpas:** Nid oedd y cymwysterau a ddefnyddir yn y system ysgolion o fewn y cwmpas. Fodd bynnag, data deilliannau cymwysterau yw un o rannau pwysicaf unrhyw ddata ysgol a system eco gwybodaeth, felly cafodd ei benderfynu y byddai dangosyddion perfformiad o'r math a ddefnyddiwyd i grynhoi data deilliannau cymwysterau yn cael ei ystyried. A thra bo cwmpas y system eco data ysgol a gwybodaeth yn llydan iawn ac eang ei ystod, mae'r astudiaeth yma'n canolbwyntio ar lle mae anghenion gwybodaeth a data nifer o randdeiliaid yn dod at ei gilydd, er enghraifft, pam fydd data yn cael ei gasglu a/neu adrodd mewn modd cyson a safonedig ar draws nifer o ysgolion, yna eu rannu gyda grwpiau o randdeiliaid eraill (a gyfeirir atynt fel 'data safonedig' yn yr adroddiad hwn). Mewn cyferbyniad, roedd yr wybodaeth y mae ysgolion a rhanddeiliaid eraill yn ei defnyddio o ddydd i ddydd at ddibenion gweithredol, y tu allan i'r cwmpas. Cydnabyddir gwerth ymchwil sy'n cysylltu data yn yr astudiaeth gwmpasu ar gyfer gwerthuso diwygiadau i'r cwricwlwm ac asesu yng Nghymru, ond nid yw'r adroddiad hwn yn ymdrin â hyn yn benodol. Yn yr un modd, nid yw pob maes polisi wedi ei gynnwys: mae ein canfyddiadau ac argymhellion yn ymateb i anghenion y rhanddeiliaid hynny a ddaeth i'r brig fel blaenoriaethau ar adeg ymchwilio ac ysgrifennu; wrth gwrs mae'r meysydd eraill nad sy'n amlwg yn yr adroddiad hwn yn parhau i fod yn berthnasol, a gan fydd y data a'r system eco yn parhau i esblygu wrth i'r CiG ddod yn fwy sefydledig, gallai'r meysydd hyn gael eu hadolygu yn y dyfodol. Yn olaf, cafodd y rhan fwyaf o'r ymchwil hwn ei gynnal yn ystod blwyddyn academaidd 2021/22, oedd yn gyfnod o gyffro sylweddol o ganlyniad i bandemig coronafeirws, ac oedwyd rhai o'r dulliau cyn-pandemig tuag at ddefnyddio data a gwybodaeth. Felly, ystyriodd yr astudiaeth hon y dulliau a oedd ar waith ar adeg yr ymchwil yn ogystal â'r rhai cyn-pandemig. Nid oedd trefniadau ôl-16 o fewn y cwmpas.

## 2. Methodoleg

2.1 Dechreuodd Cyllid Cymdeithasol y prosiect ymchwil hwn ym mis Mai 2021. Ein dull oedd gweithio'n agos gyda rhanddeiliaid ar draws y system ysgolion yng Nghymru i gyd-greu atebion a oedd yn bodloni eu hanghenion. Roedd pedwar cam i'r ymchwil:

2.2 Roedd Cyfnod 1 yn gyfnod cwmpasu eang i ddeall y dirwedd bolisi, rolau a chyfrifoldebau gwahanol randdeiliaid, cyflwr presennol a diffiniad data gwybodaeth y system eco; a sut gallai newid ac esblygu wrth i'r CiG gael ei gyflwyno. Roedd Cyfnod 2 yn ymgysylltiad manylach â rhanddeiliaid i ddeall anghenion data penodol rhanddeiliaid, beth sy'n gweithio'n dda ar hyn o bryd, a lle canfyddir bod bylchau. Roedd Cyfnod 3 yn golygu cyfosod ymchwil ac ymgysylltiad er mwyn cyrraedd set o anghenion defnyddiwr ar gyfer y system eco yn ei chyfanrwydd, wedi ei ddilyn gan asesiad o feysydd lle mae gofyn am beth newid neu ddata safonedig ychwanegol. Fe wnaethon ni gynnal adolygiad llenyddiaeth hanner strwythuredig hefyd er mwyn deall ffyrdd o weithio gwledydd eraill. Yn olaf, yng Nghyfnod 4 fe wnaethon ni gynnal dull strwythuredig o ddatblygu argymhellion, yn cynnwys argymhellion penodol sydd yn ymateb i fylchau a heriau cyfredol ac egwyddorion mwy cyffredinol ar gyfer parhau i esblygu'r system eco yn y dyfodol.

2.3 Roedd yr ymagwedd at yr ymchwil yn iteraidd. Gan nad oedd Llywodraeth Cymru wedi ceisio diffinio'r system eco data a gwybodaeth yn ffurfiol o'r blaen, roedd angen i oedi'n barhaus a myfyrio ar ganfyddiadau oedd yn dod i'r golwg, asesu p'un a oedd ein dulliau yn cynhyrchu'r canlyniadau disgwyliedig, ac addasu yn unol â hynny. Fe weithion ni'n agos gydag aelodau o Gangen Ysgolion Gwybodaeth a Gwelliant Llywodraeth Cymru drwy gydol hyn gan gyfarfod gyda Grŵp Llywio a Grŵp Ymgynghorol bob chwarter, oedd yn cynnwys cynrychiolwyr o ar draws y system ysgol.

## 3. Canfyddiadau – diffinio rhannau allweddol o'r ecosystem data a gwybodaeth

3.1 Yn ein rownd gyntaf o ymgysylltu, fe wnaethon ni geisio deall swyddogaethau a chyfrifoldebau rhandddeiliaid allweddol wrth ymgymryd â thair swyddogaeth graidd a'u defnydd cyfredol o ddata. Er enghraifft, mae angen ystod o ddata a gwybodaeth ar Estyn i gynnal arolygiadau ysgol. Arsylwi uniongyrchol mewn ysgolion yw eu prif ffynhonnell o wybodaeth ar gyfer arolygiadau o hyd, er bod data safonedig yn werthfawr ar gyfer triongli a herio canfyddiadau. Teimlai awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol fod yna werth mewn gallu defnyddio data safonedig i gymharu ysgolion ond fe wnaethon nhw gydnabod y gallai hyn fod wedi gyrru peth cystadleuaeth rhwng ysgolion a chanlyniadau negyddol eraill na fwriadwyd yn y gorffennol. Defnyddir data a gwybodaeth gan ysgolion yn bennaf ar gyfer hunan werthuso a gwelliant, a defnyddiant ystod o ddata ar gyfer y diben yma ar hyn o bryd, er cafodd sawl maes arall eu canfod lle y teimlwyd y byddai data safonedig ychwanegol yn ddefnyddiol. Yn olaf, mae angen gwelededd ar Lywodraeth Cymru ar draws y system ysgol yn ei chyfanrwydd ac i ddeall effeithiolrwydd y diwygiadau, felly byddai dod o hyd i ddata ar lefel genedlaethol, wedi ei gydgasglu o gasgliad data safonedig o fewn ysgolion yn hynod o werthfawr.

3.2 Fe wnaeth ymgysylltiad ac ymchwil cychwynnol ganfod fod yna lawer iawn o ddata yn cael ei ddefnyddio ar draws y system eco. Felly fe wnaethon ni greu diffiniadau ar gyfer y gwahanol lefelau o hyblygrwydd ar gyfer casglu a defnyddio data, ac o ganlyniad fe benderfynom ni ganolbwyntio ar ddata mwy safonedig, gan fod data mwy hyblyg a ddefnyddir ar gyfer dibenion gweithredol yn cael ei lywodraethu gan gyfarwyddyd gwella ysgolion. Canfyddiad allweddol arall oedd bod y mathau o ddangosyddion meintiol a ddefnyddiwyd a'r modd y cânt eu rhannu o fewn y system yn gallu effeithio ar ddiwylliant mwy eang. Er enghraifft, mae defnyddio dangosyddion sydd yn priodoli dyfarniadau gwerth arwyddocaol (e.e., tablau cynghrair CA4, lliw godio canlyniadau) a rhannu'r dangosyddion lefel ysgol hyn gyda phartneriaid haen ganol a'r cyhoedd wedi cyfrannu yn y gorffennol tuag at ddiwylliant o atebolrwydd a chraffu yn hytrach na hunan-werthuso a gwelliant.

## 4. Canfyddiadau – anghenion data a gwybodaeth rhanddeiliaid

4.1 Nod allweddol o'r astudiaeth ymchwil hwn oedd i fapio anghenion data a gwybodaeth gwahanol randdeiliaid yn y system ysgol ar gyfer cynnal eu swyddogaethau craidd yn fanwl, gan gynnwys lle wnaethon nhw ganfod fod yna fylchau a heriau gyda dulliau cyfredol.

4.2 **Grwpiau rhanddeiliaid allweddol:** rydym yn diffinio grwpiau rhanddeiliaid allweddol - gan gynnwys Estyn, awdurdodau lleol, consortia rhanbarthol, Llywodraeth Cymru ac ysgolion - fel sefydliadau sydd a chanddynt brif rolau wrth ymgymryd â swyddogaethau craidd hunan-werthuso, atebolrwydd a thryloywder. Maent hefyd yn ymwneud â data ysgol a gwybodaeth yn aml iawn, ac mae eu hanghenion yn aml yn cydberthyn.

4.3 Roedd Estyn yn gyffredinol wyliadwrus ynglŷn â chyflwyno unrhyw ddangosyddion meintiol newydd, wnaethon nhw eu hadnabod fel rhai oedd wedi gyrru cymhelliannau gwrthnysig mewn ysgolion yn y gorffennol (e.e, mesurau perfformiad CA4), fodd bynnag, roedden nhw yn teimlo y byddai dull mwy cyson tuag at ddeall lles dysgwr ar draws ysgolion yn werthfawr. Canolbwyntiodd adborth yr awdurdodau lleol ar ddatblygiad a chynnydd sgiliau dysgwyr, sydd eill dau yn agweddau newydd o'r CiG. Fe wnaeth rhai awdurdodau lleol chwilota'r syniad o gyflwyno asesiadau sgiliau wedi'u personoli (e.e., meddwl beirniadol, gwydnwch) ac i geisio tracio cynnydd dysgwr unigol. Fodd bynnag, roedd awdurdodau lleol eraill yn amheugar o'r lefel adnodd fyddai ei angen er mwyn datblygu a gweinyddu'r asesiadau hyn. O'r grwpiau rhanddeiliaid allweddol yr ymgynghorwyd â nhw,

consortia rhanbarthol oedd fwyaf bodlon ar y lefelau presennol o ddata safonedig ar gyfer cyflawni eu rôl yn cefnogi hunanwerthuso a gwella ysgolion. Yn gyffredinol roedden nhw yn erbyn cyflwyniad data safonedig ychwanegol, boed fod hynny'n asesiadau neu'n arolygon, yr oedden nhw'n teimlo na fyddai'n gydnaws tuag at hyrwyddo diwylliant o hunan-werthuso hyblyg.

4.4 Teimlai ysgolion hefyd fod y bylchau blaenoriaeth mewn data a gwybodaeth gyfredol ynglŷn ag agweddau o'r CiG yn newydd neu'n wahanol, sef profiad, gwybodaeth, a sgiliau, cynnydd dysgwr, a lles. Yn olaf, tra bod gan dimoedd Llywodraeth Cymru wahanol safbwynt ar y defnydd o data a gwybodaeth o fewn y system ysgol o ganlyniad i'w cyfrifoldebau polisi gwahanol ac amrywiol, yn gyffredinol fe alwon nhw am lefelau uwch o ddata cyson, safonedig yn y system mewn perthynas â rhanddeiliad eraill, o ganlyniad i'w hangen am ddata wedi'i gydgrynhoi ar lefel genedlaethol.

4.5 **Grwpiau rhanddeiliaid pwysig eraill:** mae gan nifer o grwpiau rhanddeiliaid eraill ddiddordeb pwysig yn system eco data a gwybodaeth yr ysgol. Er enghraifft roedd ar awdurdodau esgobaethol angen gwybodaeth debyg am ysgolion unigol ag y maent yn gyfrifol amdanynt ag awdurdodau lleol, ond nid yw hon bob amser ar gael iddynt mewn modd amserol. Ar Gyfer Addysg Nad Sydd Yn Yr Ysgol, er fod yna waelodlin data cyson a gesglir gan ac a roddir i holl ddarparwyr, gan fod y ddarpariaeth yn amrywio ar draws Cymru (e.e., ardaloedd trefol yn erbyn rhai gwledig) mae argaeledd data ychwanegol yn aml yn anghyson.

4.6 Roedd cynrychiolwyr o'r sector addysg bellach a'r cyflogwyr yn galw'n gyson am bwyslais cryfach ar ddefnyddio cyrchfannau yn y data er mwyn asesu effeithiolrwydd addysg uwchradd. Er enghraifft, fe wnaethon nhw awgrymu y gallai ysgolion gasglu data ar gyrchfannau a fwriadwyd gan ddysgwyr a deall sut mae'r system yn cefnogi dysgwyr i fynd mewn i a chynnal y gyrchfan a ffefrir ganddynt yn y dyfodol. Yn gyffredinol, roedd y dysgwyr yn awyddus i gael mynediad at ystod mwy eang o wybodaeth ynglŷn â'u hamgylchedd ysgol leol – gyda lles a chydraddoldeb yn flaenoriaethau uchel – ac roedden nhw hefyd eisiau mecanwaith well ar gyfer gwrando ar eu lleisiau yn yr ysgol. Mae'n ddiddorol nodi, o'r holl grwpiau rhanddeiliaid yr ymgynghorwyd â nhw fel rhan o'r prosiect hwn, efallai mai rhieni a gofalwyr a leisiodd yr awydd mwyaf am fwy o wybodaeth o ansawdd gwell am ysgolion lleol a'r system ysgolion yn ehangach. Roedd hyn yn amrywio o les dysgwr i ariannu ysgolion a chost effeithiolrwydd i sgiliau a hyfforddiant athrawon.

## 5. Canfyddiadau – asesiadau o feysydd lle mae angen newidiadau

5.1 Fe wnaethon ni grynhoi'r wybodaeth a gyfunwyd ynglŷn ag anghenion data a gwybodaeth rhanddeiliad mewn i restr hir ac asesu ar gyfer pob un, a fyddai peth newid i'r data a gasglwyd a/neu sut gaiff ei ddefnyddio yn angenrheidiol er mwyn cyfeirio at fylchau a heriau presennol. Caiff hyn ei grynhoi yn y tabl canlynol. Yna canolbwyntiodd ein hargymhellion ar feysydd lle mae angen newid.

| Yr angen am ddata a gwybodaeth blaenoriaethol | Disgrifiad | Asesiad |
|---|---|---|
| Dangosyddion perfformiad CA4 | Gohiriwyd trefniadau ar gyfer adrodd ar gymwysterau CA4 yn ystod y pandemig. Er bod cyhoeddi mesurau perfformiad CA4 cyn 2019 wedi creu rhai canlyniadau negyddol, nododd rhanddeiliaid rai bylchau yn eu dealltwriaeth hebddo. | Angen newid |
| Datblygiad trawsgwricwlaidd | Mae'r CiG yn blaenoriaethu ystod eang o sgiliau trawsgwricwlaidd; mae angen i ysgolion a phartneriaid eraill ddeall datblygu sgiliau at ddibenion hunanarfarnu a gwella. | Angen newid |
| Cynnydd | Mae cynnydd yn nodwedd sy'n diffinio'r CiG. Mae angen i ysgolion a rhanddeiliaid eraill ddeall y cynnydd dysgwyr drwy gydol eu haddysg er mwyn sicrhau eu bod yn barod ar gyfer asesiadau ym Mlwyddyn 11. | Angen newid |
| Lles (dysgwyr a staff) | Mae lles yn rhan allweddol arall o'r CiG ( y pedwerydd diben, 'unigolion iach, hyderus') gydag ymrwymiadau yn y genhadaeth genedlaethol i fuddsoddi mewn lles dysgwyr a staff a gwella'u dealltwriaeth ohono. | Angen newid |

| | | |
|---|---|---|
| Ymddygiad a phresenoldeb y dysgwr | Er y gall ysgolion ddeall y rhan fwyaf o agweddau ar ymddygiad dysgwyr trwy arsylwi a phrosesau o ddydd i ddydd, mae rhanddeiliaid heblaw ysgolion angen data cadarn, cymaradwy am ddigwyddiadau allweddol (presenoldeb, gwaharddiadau, symudiadau disgyblion) at ddibenion atebolrwydd. | Angen newid |
| Nodweddion a Thegwch | Mae angen i randdeiliaid ddeall demograffeg y boblogaeth o ddysgwyr i asesu a yw'r system ysgolion yn deg, ac i addasu dulliau gweithredu, ariannu a dadansoddi yn unol â hynny. | Angen newid |
| Ysgolion sy'n peri pryder | Mae angen i ysgolion a phartneriaid haen ganol allu nodi meysydd o bryder lle mae angen gwella, er mwyn nodi ymatebion effeithiol a monitro cynnydd | Dim angen newid |
| Gwasanaethau cefnogi a gwella | Mae angen i awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol allu adolygu a chwestiynu ansawdd ac effaith eu gwasanaethau cymorth fel rhan o'u gweithgareddau hunanarfarnu a gwella eu hunain. | Dim angen newid |
| Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol / Targedau Cymraeg 2050 | O dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, bydd awdurdodau lleol yn gosod amcanion ar draws ystod o bynciau, y gallai fod angen i ysgolion adrodd arnynt. Mewn modd tebyg, mae angen i ysgolion adrodd ar lefelau siarad Cymraeg fel rhan o Cymraeg 2050. | Dim angen newid |
| Cyfathrebu | Mae angen i Lywodraeth Cymru allu cyfathrebu taith a llwyddiant y CiG i'r cyhoedd i feithrin hyder yn y diwygiadau. | *Ystyriwyd mewn anghenion eraill* |
| Lles ac agwedd tuag at ddysgu | Mae angen i Estyn gwerthuso ymagweddau Lles ac Agwedd ysgolion tuag at Ddysgu, fel rhan o'u Fframwaith Arolygu. | Dim angen newid |
| Deilliannau Dysgu a Lles Proffesiynol | Mae datblygu proffesiwn addysg o ansawdd uchel yn un o bedwar amcan galluogi'r *Genhadaeth Genedlaethol*. Mae sawl cwestiwn o fewn hyn, gan gynnwys pa mor ddeniadol yw'r proffesiwn addysgu, ac a yw sgiliau athrawon yn cyfateb i'r galw | Dim angen newid |

5.2 Mae nifer o'r meysydd lle wnaethon ni ddod i'r casgliad fod angen newid yn alinio'n naturiol i agweddau o'r CiG sydd yn newydd neu'n wahanol. Felly fe wnaethon ni gynnal mwy o ymchwil manwl ir meysydd hyn er mwyn deall yr heriau penodol ac i oleuo datblygiad yr argymhellion hyn:

5.3 Data deilliannau cymwysterau CA4 : fe wnaeth dulliau o adrodd ar gyflawniadau ysgol CA4 cyn y pandemig greu cymelliadau gwrthnysig i ysgolion. Roedd dangosyddion a wnaeth farnau terfynol ynglŷn â pherfformiad ysgol yn enwedig o broblemus. Yn le hynny, mynegodd rhanddeiliaid y byddai'n well ganddyn nhw ddangosyddion sydd yn gosod gwerth gyfartal ar wahanol bynciau/cymwysterau, yn dal cynnydd drwy gydol addysg, a sy'n pwysleisio pwysigrwydd cyrchfannau dilynol. Dylid cyd-destunoli unrhyw ddangosyddion yn gywir, a thra ystyrir bod cymariaethau rhwng ysgolion yn ddefnyddiol, fe ddylen nhw fod yn ystyrlon ac ar gael i ysgolion yn unig.

5.4 Datblygiad sgiliau traws-gwricwlaidd: cafwyd consensws cyffredinol fod yna fylchau ar hyn o bryd yng ngallu rhanddeiliaid i ddeall sut a ph'un a yw dysgwyr yn datblygu y set eang o sgiliau a flaenoriaethwyd yn y CiG. Awgrymwyd y byddai dull mwy cyson o asesu datblygiad sgiliau dysgwr yn werthfawr, er y cafodd ei gydnabod hefyd bod mesur y sgiliau hyn o fewn ysgolion mewn modd na fyddai'n cyflwyno llwythi sylweddol newydd yn heriol.

5.5 Cynnydd: wrth ymgysylltu â rhanddeiliaid cafodd pryderon eu hadnabod nad yw cynnydd yn cael ei ddeall yn gyson mewn ysgolion. Gallai hyn arwain at amrywiaethau yn effeithiolrwydd dysgu ac addysgu ac amrywiaethau cyfatebol yng nghyflawniad CA4. Er i rhai rhanddeiliaid nodi y byddai fframwaith asesiad meintiol wedi ei alinio i agweddau o'r CiG sydd yn ymwneud â chynnydd (e.e., Egwyddorion Cynnydd, Camau Cynnydd) yn werthfawr, teimlai eraill, gan gynnwys timau polisi Llywodraeth Cymru, yn gryf y byddai hyn yn anymarferol ac yn groes i ethos y CiG. Byddai cyfeirio at yr her yma drwy well cyfarwyddyd a/neu gymorth dan arweiniad cyfoedion yn ymddangos yn fwy hyfyw.

## 6. Canfyddiadau – dulliau o ddefnyddio data a gwybodaeth mewn gwledydd eraill

6.1 Mae llawer i'w ddysgu gan ddulliau o ddefnyddio data a gwybodaeth mewn systemau ysgol gwledydd sydd wedi mynd drwy ddiwygiadau tebyg i'r rhai a wnaed yng Nghymru. Er enghraifft, Y Ffindir, yn rhyngwladol efallai, yw arweinydd y byd mewn defnyddio dulliau samplo i ddeall cynnydd dysgwr. Caiff ystod o asesiadau wedi eu ffocysu, eu cynnal yn aml mewn samplau cymharol fychan o ysgolion er mwyn asesu cyflawniad dysgwr, sydd yn cael eu cyfuno gydag astudiaethau hydredol a arweinir yn lleol ac sydd wedi eu ffocysu ar ar gynnydd dysgwr tymor hirach. Mewn gwrthgyferbyniad i hyn, mae Seland Newydd yn arweinydd mewn deall lles dysgwr. Mae yna ddau brif canfyddiad yma i Gymru eu dysgu: yn gyntaf, mae system ysgol Seland Newydd yn cysegru adnoddau sylweddol tuag at ddeall lles, gan sicrhau cydweithrediad rhwng adrannau'r llywodraeth ac arbenigwyr y sector; a bydd lles yn cael ei chwilota o nifer o onglau, gan gynnwys arolygon lles cenedlaethol ac arolygon llais y dysgwr a gaiff eu harwain yn fwy lleol.

6.2 Mae Singapôr hefyd yn cynnig gwers werthfawr ynglŷn â sut mae cynnal hyder y cyhoedd yn ansawdd addysg pan fydd newidiadau yn cael eu rhoi ar waith i'r modd y bydd data ysgol yn cael ei adrodd a'i rannu. Yn ystod diwygiadau addysg diweddar, ceisiodd Singapôr symud i fwrdd yn rhannol o'i ffocws blaenorol o ddata cyflawniad yn unig. Fodd bynnag, cafodd hwn ei gyfarch gan amheuaeth ar ran rhai rhieni a rhannau o'r cyfryngau, oedd wedi arfer â gwybodaeth rheolaidd, manwl ynglŷn â pherfformiad eu plant mewn asesiadau.

## 7. Canfyddiadau – mewnwelediadau eraill a chasgliadau o brofi argymhellion drafft

7.1 Cyn terfynu'r argymhellion, fe wnaethon ni brofi fersiynau drafft yn helaeth. Daeth mewnwelediadau gwerthfawr i'r golwg ynglŷn â sut ddylid rhoi unrhyw newidiadau gan Lywodraeth Cymru ar waith, yn y tymor agos ac yn y dyfodol. Er enghraifft:

7.2 Tensiynau rhwng data ac anghenion gwybodaeth: yn gyffredinol, roedd pob grŵp rhanddeiliad yn gwerthfawrogi sut y gallai peth data a gwybodaeth benodol oedd o werth iddyn nhw ddod ar gost i grwpiau eraill (e.e., llwyth gwaith ysgol ychwanegol o gasglu data newydd). Fodd bynnag, cafwyd rhai tensiynau rhwng anghenion gwahanol randdeiliaid, oedd angen eu cydbwyso yn yr argymhellion terfynol.

7.3 Diwylliant ac agweddau: awgrymodd y profi argymhellion efallai nad oedd y cyfarwyddyd gwella ysgol wedi hidlo drwy bob rhan o'r system. Er enghraifft, ceir peth nerfusrwydd o hyd ymhlith ysgolion, pe baen nhw'n casglu a rhannu unrhyw data gwybodaeth newydd, y byddai'n cael ei ddefnyddio'n gyntaf ac yn flaenaf gan bartneriaid eraill ar gyfer dibenion atebolrwydd yn hytrach nac i gefnogi hunan-werthuso a gwelliant. Mae ysgolion hefyd o dan straen o hyd wrth iddyn nhw ddod dros y coronafeirws a rhoi'r CiG ar waith, gan adrodd eu bod eu capasiti'n gyfyng mewn perthynas ag unrhyw newidiadau trylwyr a pharhaus ynglŷn â'r modd y gellid defnyddio data a gwybodaeth yn y tymor agos.

7.4 Rôl y cyfryngau: mae rhai o'r argymhellion a ddisgrifir isod yn golygu lleihau maint y data lefel ysgol a ddatgelir yn gyhoeddus fel mater o arfer, yn enwedig dangosyddion deilliannau cymwysterau CA4. Os yw'r argymhellion hyn yn cael eu derbyn, mae rhanddeiliaid yn rhagweld y byddai allfeydd cyfryngau yn debygol o gyflwyno ceisiadau rhyddid gwybodaeth er mwyn cyrchu'r data yma (e.e., i gyhoeddi tablau cynghrair). Byddai angen i Lywodraeth Cymru baratoi ar gyfer y posibilrwydd hyn, er enghraifft, drwy baratoi datganiadau sydd yn pwysleisio'r cydraddoldeb rhwng cyflawniad CA4 ac agweddau eraill o ddysgu yn y CiG newydd.

## 8. Argymhellion

8.1 Mae ein hargymhellion wedi eu dylunio i ymateb i anghenion rhanddeiliaid fel y maent ar hyn o bryd ond sydd hefyd yn diffinio'r ecosystem yn gyffredinol er mwyn iddo allu esblygu dros amser. Y cyfarwyddyd trosfwaol ar gyfer yr argymhellon hyn oedd y ddwy nod o: i) gefnogi gweithrediad llwyddiannus y CiG; a ii) datblygu diwylliant ac arferion y system mewn perthynas â defnyddio data a gwybodaeth er mwyn cyflawni'r weledigaeth hwnnw o gyfarwyddyd gwella ysgol diweddar.

8.2 Ceir tri categori o argymhellion: egwyddorion cyffredinol, a fwriadwyd i gyfarwyddo'r dull cyffredinol o ddefnyddio data a gwybodaeth ac sy'n cael eu hallosod o'r argymhellion penodol; argymhellion penodol, sydd yn ymateb i anghenion defnyddiwr sy'n flaenoriaeth a lle cafodd bylchau a materion eu hadnabod gyda dulliau cyfredol (gan gynnwys ystyriaeth o ddeilliannau cymwysterau CA4); a dau argymhelliad olaf ar gyfer sut ddylai Llywodraeth Cymru feddwl am barhau i esblygu'r system eco dros amser.

8.3 Dylid nodi nad yw’r argymhellion yn ymdrin â phob agwedd ar yr ecosystem data a gwybodaeth. Mae argymhellion penodol yn arbennig yn ymateb i’r anghenion hynny a ddaeth i’r amlwg fel blaenoriaethau ar adeg ymchwilio ac ysgrifennu. Dyw hyn ddim i ddweud na ddylid adolygu a diwygio meysydd eraill ar sail barhaus. Yn wir, mae argymhelliad 13 yn awgrymu proses ar gyfer gwneud hyn. Yn yr un modd, mae’r argymhellion ar gyfer newidiadau i ddulliau presennol yn unig, felly nid ydynt yn atal y defnydd parhaus o ddata a gwybodaeth ar gyfer rhannau eraill o’r ecosystem nad ydynt wedi’u crybwyll yn benodol.

## Crynodeb o'r holl argymhellion

| Egwyddorion cyffredinol |
|---|
| ***1. Mathau o ddangosyddion -*** Dylai Llywodraeth Cymru geisio osgoi defnyddio dangosyddion perfformiad ysgolion unigol sy'n gosod ysgolion mewn trefn neu'n awgrymu dyfarniadau gwerth. Yn gyffredinol, dylai Llywodraeth Cymru fod yn ofalus wrth ddyfeisio a chyhoeddi unrhyw ddangosyddion sy'n crynhoi gwybodaeth gymhleth, a'u cyd-ddylunio â'r rhanddeiliad perthnasol y mae ei ddata'n cael eu crynhoi. |
| ***2. Ymagwedd tuag at rannu data lefel ysgol -*** dylai Llywodraeth Cymru barhau i hybu'r diwylliant o ddefnyddio data ar gyfer hunan-werthuso a gwella drwy ymatal rhag cyhoeddi dangosyddion ar lefel ysgolion. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried rhannu'r data a'r dangosyddion ar lefel ysgolion y mae'n eu casglu a'u prosesu ag ysgolion priodol yn unig (e.e. canlyniadau cymwysterau CA4), ac yn y tymor agos, dylai fod gan ysgolion ddisgresiwn dros rannu'r wybodaeth hon â sefydliadau haen ganol a chymunedau ysgolion. |
| ***3. Defnyddio samplo i ateb cwestiynau polisi -*** Dylai Llywodraeth Cymru anelu at ddefnyddio samplu wrth geisio ateb cwestiynau hunanarfarnu ynghylch polisi er mwyn lleihau'r baich ar ysgolion o ran casglu data ychwanegol. Dylai anelu at ddosbarthu'r baich o gymryd rhan mewn gweithgareddau wedi'u samplu mor gyfartal â phosibl ymhlith ysgolion a sicrhau bod yr holl offer ymchwil a ddefnyddir ar gael at ddefnydd dewisol ysgolion eraill. |
| ***4. Tryloywder a chyfathrebu gyda'r cyhoedd -*** Dylai rhanddeiliaid y system ailymrwymo i'r egwyddor o dryloywder gyda'r cyhoedd, ond yn enwedig Llywodraeth Cymru yn y tymor hir ac ysgolion. Yn y tymor byr, dylai fod gan ysgolion beth disgresiwn dros cwmpas a ffurf yr wybodaeth a rennir gyda chymunedau ysgol (e.e. drwy MyLocalSchool) yn unol ag egwyddor cyffredinol 2 uchod. |
| **Newidiadau penodol** |
| ***5. Deall sgiliau dysgwr allweddol -*** dylai Llywodraeth Cymru arwain y gwaith o greu asesiadau dysgwyr i gasglu ystod ehangach o sgiliau na rhifedd a llythrennedd ar gyfer dysgwyr cyn CA4. Gellid cynnal asesiadau ar sail samplu yn unol ag argymhelliad cyffredinol 2, gyda'r ysgolion sy'n cymryd rhan yn derbyn eu canlyniadau eu hunain at ddibenion hunanarfarnu. Dylid gwneud ymchwil pellach i benderfynu pa sgiliau i'w hasesu a sut. |
| ***6. Cefnogi ymagweddau cyson tuag at gynnydd dysgwr -*** dylai Llywodraeth Cymru ystyried comisiynu ymchwil pellach i ddeall y ffordd orau o gefnogi dulliau cyson o sicrhau cynnydd dysgwyr ar draws ysgolion. Yr opsiwn a ffefrir yw fod yr haen ganol yn cynnig cymorth i ysgolion ddatblygu dulliau cyson o ddeall a meincnodi cynnydd – nid cyflwyniad mesurydd neu ddangosydd cyson. |
| 7 ***Lles a llais dysgwr -*** dylai Llywodraeth Cymru barhau i ddatblygu ei ddull o weithredu tuag at arolygon lles dysgwr a chwilota p'un a sut y gellid cynhyrchu data lles dysgwr yn flynyddol, ar lefelau sydd yn gynrychioladol ar lefel genedlaethol ac sy'n ddefnyddiol ar gyfer ysgolion. Gallai samplu hyn helpu i gyflawni hwn a dylid ei ystyried. Dylai Llywodraeth Cymru annog cyfranogiad a datblygu ymwybyddiaeth o arolygon sydd yn bodoli eisoes a gafodd eu cymeradwyo gan Lywodraeth Cymru. Dylai hefyd greu canllawiau i gefnogi ysgolion i weithredu Arolwg Llais y Dysgwr blynyddol opsiynol ac annog ei ddefnydd, i ategu'r darlun cenedlaethol â themâu sy'n berthnasol yn lleol. |
| ***8. Lles staff -*** dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno system ar gyfer casglu data cyson ar lefel genedlaethol ynglŷn â'r diwygiadau ar les staff, a allai fod yn fodiwl newydd o fewn Cyfrifiad Blynyddol Gweithlu'r Ysgol neu arolwg lles staff ar wahân. |
| ***9. Cyd-destunoli dangosyddion ysgol a'r gallu i groesholi effeithiau ecwiti -*** dylai Llywodraeth Cymru ystyried defnyddio Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru i ddarparu gwybodaeth gyd-destunol fwy manwl am ysgolion unigol a chynnwys hyn mewn unrhyw adroddiadau a rennir ag ysgolion ac ar FyYsgolLeol. Dylai hefyd ystyried casglu nodweddion ychwanego ar lefel dysgwr yng Nghyfrifiad Blynyddol Lefel Disgybl) i alluogi dadansoddiad mwy gronynnog o effeithiau tegwch yn y cwricwlwm. Dylai'r argymhelliad hwn lywio adolygiad presennol Llywodraeth presennol Cymru o'r ffordd orau o ddeall amddifadedd ar lefel ysgol. |

***10. Mwy o dryloywder o fewn ysgolion -*** dylai Llywodraeth Cymru gynnal neu gomisiynu adolygiad a arweinir gan anghenion o'r system FyYsgolLeol fel bod ystod ehangach o wybodaeth ar lefel ysgol ar gael i gymunedau ysgolion yn y tymor hir, yn unol ag argymhellion cyffredinol 2 a 4, ac argymhelliad 12. Dylid ystyried cynnwys ymarferoldeb i ysgolion lanlwytho eu gwybodaeth eu hunain.

**Newidiadau penodol - Data canlyniadau cymwysterau Cyfnod Allweddol 4**

**11. *Diwygio dangosyddion CA4 a rhannu data -*** dylai Llywodraeth Cymru anelu at greu basged o ddangosyddion defnyddiol i ysgolion ddeall canlyniadau eu cymwysterau CA4 mewn ffordd gyflawn, gyd-destunol, at ddibenion hunan-werthuso. Mae'r dull Ôl-16 (h.y. mesurau cyson) yn ganllaw defnyddiol. Gallai dangosyddion gynnwys mesurau sydd yn crynhoi canlyniadau cymwysterau, dangosydd(ion) cyrchfannau ac ystadegau cryno ar lefel cymwysterau/pynciau. Dylai adroddiadau a ddarperir i ysgolion gael eu cynllunio gyda nhw a chynnwys gwybodaeth gyd-destunol fanylach a chymariaethau sydd fwyaf gwerthfawr yn eu barn nhw at ddibenion hunanarfarnu a dysgu.

**Parhau i ddatblygu'r ecosystem**

***12. Ar drywydd adeiladu diwylliant o hunan-werthuso a gwelliant -*** Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno unrhyw newidiadau i'r ecosystem data a gwybodaeth sy'n deillio o'r adroddiad hwn (neu fel arall) yn raddol. Yn wir, gallai o bosibl ystyried oedi unrhyw newidiadau (gan gynnwys cyhoeddi canllawiau newydd ynghylch y defnydd o ddata a gwybodaeth am gyfnod) ac yn lle hynny ganolbwyntio ar ddylanwadu ar ddiwylliant ehangach y system drwy atgyfnerthu'r canllawiau gwella Ysgolion presennol i sicrhau eu bod yn treiddio i bob lefel.

***13. Ymagwedd tuag at adolygiad parhaus a datblygiad y system eco*** - Dylai Llywodraeth Cymru gynnal adolygiad blynyddol byr o'r ecosystem data a gwybodaeth i nodi ac ymateb i unrhyw faterion neu fylchau penodol a allai ddod i'r amlwg, yn ogystal â deall sut mae'r diwylliant sy'n ymwneud â defnyddio data a gwybodaeth yn datblygu.

Awduron yr Adroddiad: Cyllid Cymdeithasol – Christopher Owen, Georgia Hill, Jessica Kyriacou, Oliver Southwick, Thomas Bermudez, Tom Davies.

SOCIAL FINANCE

Adroddiad Ymchwil Llawn: Owen, C, Hill, G, Kyriacou, J, Southwick, O, Bermudez, T, Davies, T., (2023). Datblygu ecosystem data a gwybodaeth newydd sy'n cefnogi'r system ysgolion ddiwygiedig yng Nghymru. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, Rhif adroddiad 05/2023
Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/ymchwil-archwilio-system-wybodaeth-newydd-ar-gyfer-ysgolion
Safbwyntiau'r ymchwilwyr a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid o reidrwydd rhai Llywodraeth Cymru

Am ragor o wybodaeth cysylltwch ag:
Ymchwil Ysgolion
Is-adran Ymchwil a Gwybodaeth Gymdeithasol
Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi
Llywodraeth Cymru, Parc Cathays
Caerdydd, CF10 3NQ
Ebost: YmchwilYsgolion@llyw.cymru

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-80535-278-5